Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cynllunio a Seilwaith

Mehefin 2025

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

**1.** Cafodd y Bil Cynllunio a Seilwaith[1] (y Bil) ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 11 Mawrth 2025. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

**2.** Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn datgan:

> *"The Planning and Infrastructure Bill ("the Bill") will speed up and streamline the delivery of new homes and critical infrastructure, supporting delivery of the government's Plan for Change milestones of building 1.5 million safe and decent homes in England and fast-tracking 150 planning decisions on major economic infrastructure projects by the end of this Parliament. It will also support delivery of the government's Clean Power 2030 target by ensuring that clean energy projects are built as quickly as possible."*[2]

**3.** Mae enw hir y Bil yn datgan mai dyma ddiben y Bil:

> *"Make provision about infrastructure; to make provision about town and country planning; to make provision for a scheme, administered by Natural England, for a nature restoration levy payable by developers; to make provision about development corporations; to make provision about the compulsory purchase of land; to make provision about environmental outcomes reports; and for connected purposes."*[3]

**4.** Dechreuodd y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar 24 Ebrill 2025, a daeth y Cyfnod hwn i ben ar 22 Mai 2025. Cynhaliwyd Cyfnod Adrodd a Thrydydd Darlleniad y Bil dros gyfnod o ddau ddiwrnod, ar 9 a 10 Mehefin 2025. Cynhaliwyd y Darlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 12 Mehefin 2025. Ar yr adeg y cytunwyd ar yr adroddiad hwn, roedd yr Ail Ddarlleniad wedi'i drefnu i'w gynnal ar 25 Mehefin 2025.

[1] Y Bil Cynllunio a Seilwaith, fel y'i cyflwynwyd
[2] Nodiadau Esboniadol y Bil, fel y'i cyflwynwyd
[3] Y Bil Cynllunio a Seilwaith, fel y'i cyflwynwyd.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod rhaid cael memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol sydd gerbron Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**6.** Ar 26 Mawrth 2025, gosododd Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio (yr Ysgrifennydd Cabinet) Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) mewn cysylltiad â'r Bil gerbron y Senedd.[4]

**7.** Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ar y Memorandwm (ein hadroddiad cyntaf) ar 28 Mai 2025.[5]

**8.** Mae paragraffau 8 i 11 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi'r darpariaethau yn y Bil yr oedd Llywodraeth Cymru, ar y pryd, yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**9.** Mae paragraffau 12 i 27 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, fel y'i nodwyd yn y Memorandwm.

**10.** Mae ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys dau gasgliad a phedwar argymhelliad.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2)

**11.** Ar 15 Mai 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[6]

**12.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Pwyllgor) a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 27 Mehefin 2025.[7]

---

[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, 26 Mawrth 2025

[5] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, Mai 2025

[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, Mai 2025

[7] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, Mai 2025

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**13.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 23 a 24 Ebrill 2025 yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.

**14.** Ym mharagraffau 8 i 29 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi manylion y gwelliannau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am safbwynt Llywodraeth Cymru ers cyhoeddi'r Memorandwm. Dywed yr Ysgrifennydd Cabinet fod angen cydsyniad ar gyfer:

- Gov NC43, sy'n ychwanegu cymal newydd – "Changes to, and revocation of development consent orders";
- Gov NC44 (a), (b) ac (e), sy'n ychwanegu cymal newydd – "Applications for development consent: removal of certain pre-application requirements";
- Gov NC45, sy'n ychwanegu cymal newydd – "Applications for development consent: changes related to section (Applications for development consent: removal of certain pre-application requirements)".[8]

**15.** O ran Gov NC44, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan y canlynol:

- Mae'r cymal newydd yn hepgor ystod o adrannau o *Ddeddf Cynllunio 2008* (Deddf 2008), ac yn benodol, adrannau 42 i 45, adran 47, ac adran 49, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n bwriadu gwneud cais am gydsyniad datblygu ymgynghori â phobl benodol am y cais arfaethedig.
- Byddai dileu adrannau 42 a 44 o Ddeddf 2008 yn dileu'r ddyletswydd i ymgynghori â Gweinidogion Cymru, cyrff cyhoeddus Cymru (megis Cyfoeth Naturiol Cymru), ac awdurdodau lleol lle mae'r tir perthnasol o fewn eu hardal.
- Mae Gweinidogion Cymru ac awdurdodau datganoledig eraill Cymru yn cael eu henwi yn y Rheoliadau a wneir o dan adran 42 o Ddeddf 2008, a bydd dirymu'r adrannau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru ac Awdurdodau Datganoledig Cymru.[9]

[8] Memorandwm Rhif 2, paragraff 10
[9] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 12 i 15. Gweler paragraff 32 hefyd.

**16.** Mewn llythyr at y Pwyllgor ac at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar 28 Mai 2025, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am gymal 4(3) o'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Cafodd y cymal hwnnw ei gynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodais ar 26 Mawrth. Ers hynny, mae'r cymal wedi cael ei dynnu o'r Bil drwy welliant a gyflwynwyd gan y Llywodraeth – Gov 58. Ni chafodd y gwelliant hwnnw ei gynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol gan ei fod yn ganlyniadol i welliant Gov NC44 ac oherwydd nad oedd yn bodloni'r prawf yn Rheol Sefydlog 29.2. Mae'r llythyr hwn yn egluro'r sefyllfa sy'n ganlyniad i hynny. (…)*
>
> *Cafodd cymal 4(3) ei gynnwys yn ddarpariaeth berthnasol yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 26 Mawrth, gan y byddai'r darpariaethau'n effeithio ar swyddogaethau'r Awdurdodau Datganoledig yng Nghymru ac y byddai angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Mae'r newid a wnaed gan y Llywodraeth drwy Welliant Gov 58 yn dileu'r ddyletswydd honno yn ystod y cam cyn ymgeisio o ganlyniad i welliant Gov NC44 gan y Llywodraeth, sy'n dileu'r cam ymgynghori statudol hwnnw yn ystod y cam cyn ymgeisio.*
>
> *Mae'r gofyniad i Gyrff Datganoledig Cymru roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael ei gadw yng nghymal 4(4) a 4(5). (…) Cafodd y ddau gymal yma hefyd eu cynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd gennyf ar 26 Mawrth. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r cymalau hyn yn rhan o'r Bil o hyd ac mae cydsyniad y Senedd yn ofynnol ar eu cyfer.*[10]

**17.** O ran Gov NC45, yn Memorandwm Rhif 2 mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan y canlynol:

- Mae'r cymal newydd yn gwneud newidiadau sy'n gysylltiedig â hepgor gofynion ymgynghori cyn ymgeisio mewn perthynas â Gov NC44. Mae effaith y gwelliannau hyn yn rhoi swyddogaeth newydd i'r awdurdod cynllunio lleol a fydd yn cael y wybodaeth a nodir yn y cymal newydd.

[10] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 28 Mai 2025

- Yn ogystal, dileir adran 50 o Ddeddf 2008, a rhoddir darpariaeth newydd yn ei lle o dan y pennawd "Guidance about pre-application steps", a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'w cynorthwyo i gydymffurfio ag adran 48 (dyletswydd i roi cyhoeddusrwydd). Bydd hefyd yn darparu bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi canllawiau sy'n nodi'r arfer gorau o ran y camau y gallai ymgeiswyr eu cymryd cyn cyflwyno unrhyw geisiadau.

- Bydd hi'n "ceisio sicrwydd gan Lywodraeth y DU y bydd y gyfundrefn NSIP[11] yn pwysleisio gweithredu rhag blaen ac ar ymgysylltu ac ymgynghori cynnar, ystyrlon ac adeiladol o ansawdd uchel. Adlewyrchir hyn yn y canllawiau a gyhoeddir."

- Mae'r cymal newydd yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2017 (O.S.2017/572) o ganlyniad i welliant NC44, gan ddileu'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth benodol i ymgyngoreion.

- Byddai'r darpariaethau a gynigir gan gymal newydd Gov NC45 yn rhoi, yn dileu neu'n newid swyddogaethau Awdurdodau Datganoledig Cymru.[12]

**18.** O ran Gov NC43, ym Memorandwm Rhif 2, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan y canlynol:

- Mae'r cymal newydd yn diwygio Atodlen 6 i Ddeddf 2008. Effaith hyn fydd diddymu'r weithdrefn ar gyfer gwneud newidiadau ansylweddol i orchmynion cydsyniad datblygu (DCOs) a roddir o dan y Ddeddf honno.

- Mae is-adran (6) o'r cymal newydd yn gwneud gwelliannau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall, gan gynnwys paragraff 8(3)(b)(i) o Atodlen 7 i *Ddeddf Cymru 2017* (Deddf 2017). Roedd Deddf 2017 yn datganoli swyddogaethau cydsynio ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan penodol i Weinidogion Cymru. NSIPs oedd y prosiectau hyn cyn hynny, a'r Ysgrifennydd Gwladol a roddai'r gorchmynion cydsyniad datblygu ar eu cyfer. Mae Atodlen 7 i Ddeddf 2017 yn gwneud darpariaeth drosiannol er mwyn i Weinidogion Cymru allu delio â newidiadau i DCOs sydd bellach yn gyfrifoldeb Gweinidogion Cymru (DCOs etifeddol). Mae'r broses ar

[11] Mae Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn brosiectau datblygu mawr yng Nghymru neu Loegr sy'n dod o dan y categorïau a ganlyn: ynni, trafnidiaeth, gwastraff, dŵr gwastraff, a dŵr.
[12] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 16 i 22 a 35.

gyfer gwneud newidiadau wedi'i nodi yn Neddf 2008, fel y cafodd ei newid gan baragraff 8 o Atodlen 7 i Ddeddf 2017. Mae'r cymal newydd yn diwygio Atodlen 7 i Ddeddf 2017 o ganlyniad i'r newidiadau hyn ac o ganlyniad i hepgor paragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf 2008.

- Er bod y swyddogaeth o benderfynu ar DCOs wedi'i gadw yn ôl, byddai'r gwelliannau a gynigir gan welliant Gov NC43 yn rhoi, yn dileu neu'n newid swyddogaethau Gweinidogion Cymru wrth benderfynu ar unrhyw DCOs etifeddol mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli.
- Gallai'r cymal newydd effeithio ar nifer fach o brosiectau yng Nghymru. Fodd bynnag, gan fod y cynnig yn darparu proses symlach ar gyfer newid DCOs, "bydd y darpariaethau yn dod â manteision posibl i randdeiliaid", a byddai'r newid hwn "yn cyd-fynd â'n hymdrech gyffredinol i ddarparu proses fodern ar gyfer cydsynio seilwaith".[13]

**19.** O ran barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn dweud ym Memorandwm Rhif 2:

> *"Ysgrifennodd Mathew Pennycook AS, y Gweinidog Gwladol dros Dai a Chynllunio, ataf ar 2 Mai 2025 i roi gwybod am farn Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am gydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r mesurau ychwanegol a ychwanegwyd at Ran 1 o'r Bil. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y darpariaethau, ac eithrio Gov NC43, yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl ac felly nid yw'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn berthnasol."*[14]

**20.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet o'r farn "mai'r ddadl gryfaf yw bod gwelliannau Gov NC43, Gov NC44 a Gov NC45 yn gwneud darpariaeth sy'n effeithio ar swyddogaethau Awdurdodau Datganoledig Cymru a bod felly angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol."[15]

**21.** Dyma gasgliad yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Mewn perthynas â chymalau newydd Gov NC44 a Gov NC45, mae'n briodol ymdrin â'r rhain mewn Bil DU gan fod hyn yn ymwneud â phroses gydsynio y DU ar gyfer seilwaith ar raddfa fawr. Mae'r LCM atodol hwn wedi'i osod gan fod y*

[13] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 23 i 29 a 37
[14] Memorandwm Rhif 2, paragraff 30
[15] Memorandwm Rhif 2, paragraff 31

*gwelliannau'n rhoi, yn dileu neu'n newid swyddogaethau cyrff cyhoeddus Cymreig yn y broses honno ac rwyf wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ddeall effeithiau ymarferol y newid ar ein cyrff a'r cyhoedd. Rwy'n aros am ymateb Llywodraeth Cymru i'm sicrhau bod y canllawiau cysylltiedig yn annog gweithredu rhag blaen cyn y gallaf wneud argymhelliad ar gydsynio mewn perthynas â chymalau Gov NC44 a Gov NC45.*

*Ar gyfer cymal newydd Gov NC43, effaith y gwelliant yw rhoi, dileu neu newid swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran eu gallu i benderfynu ar newidiadau i DCOs sy'n ymwneud â gorsafoedd cynhyrchu ynni datganoledig. Gan fod y cydsyniadau hyn wedi'u rhoi o dan Ddeddf 2008, mae'r broses wedi'i chadw i Lywodraeth y DU wneud y gwelliannau. Hefyd, mae gwneud gwelliannau ar lefel y DU yn briodol a dim ond mewn Bil y DU y gellir gwneud hynny. Ar yr adeg hon, rwy'n argymell bod y Senedd yn cefnogi Gov NC43 ac yn rhoi ei chydsyniad iddo."*[16]

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**22.** Gwnaethom drafod Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 9 Mehefin 2025.[17]

**23.** Gwnaethom drafod a chytuno ar ein hadroddiad yn ystod ein cyfarfod ar 16 Mehefin 2025.[18]

## Ein barn ni

### Cydsyniad deddfwriaethol

**24.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r gwelliannau i'r darpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 2.

**25.** Rydym hefyd yn nodi safbwynt Llywodraeth y DU ar gydsyniad.

**Casgliad 1.** Rydym yn parhau i gytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2, o'r darpariaethau (a diwygiadau i'r darpariaethau hynny) yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, yn

[16] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 40 a 41
[17] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Mehefin 2025
[18] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Mehefin 2025

unol â Rheol Sefydlog 29. Fodd bynnag, mae hyn yn ddarostyngedig i'r safbwyntiau a nodir gennym yng nghasgliad 2.

**26.** Nodwn fod Gov NC43 a Gov NC44 yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

**Casgliad 2.** Rydym o'r farn bod angen hysbysu'r Senedd ynghylch Gov NC43 a Gov NC44, o dan Reol Sefydlog 30.1, gan fod y darpariaethau hyn yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

**27.** Nodwn hefyd fod yr Ysgrifennydd Cabinet yn aros am wybodaeth gan Lywodraeth y DU ynghylch effeithiau ymarferol Gov NC44 a Gov NC45 ar gyrff cyhoeddus Cymru a'r cyhoedd ei hun cyn y gall wneud argymhelliad ar gydsyniad mewn perthynas â'r cymalau newydd hyn.

**28.** Nodwn hefyd, mewn perthynas â Gov NC43, fod yr Ysgrifennydd Cabinet yn datgan bod "gwneud gwelliannau ar lefel y DU yn briodol a dim ond mewn Bil y DU y gellir gwneud hynny", a'i bod felly'n argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r cymal newydd hwn.

**29.** Wrth gytuno â Llywodraeth Cymru fod angen cydsyniad y Senedd ar Gov NC44, a bod y gwelliant hwn yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru, nodwn lythyr yr Ysgrifennydd Cabinet, dyddiedig 28 Mai, lle mae'n datgan bod gwelliant 58 gan Lywodraeth y DU yn dileu cymal 4(3) o'r Bil. Rydym hefyd yn nodi'r datganiad a ganlyn gan yr Ysgrifennydd Cabinet: "Ni chafodd y gwelliant hwnnw ei gynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol gan ei fod yn ganlyniadol i welliant Gov NC44 ac oherwydd nad oedd yn bodloni'r prawf yn Rheol Sefydlog 29.2."

## Materion sy'n parhau i fod yn destun pryder

**30.** Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys pedwar argymhelliad a oedd yn ymwneud â gweithio rhynglywodraethol ar y Bil (argymhellion 1 a 2); pwerau dirprwyedig yn y Bil (argymhelliad 3); a'r modd y mae'r Bil yn rhyngweithio â chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cydgrynhoi cyfraith gynllunio yng Nghymru (argymhelliad 4). Rydym yn aros am ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet i'n hadroddiad cyntaf.